

Gweithredu argymhellion Archwilio Cymru i wella dull digidol y Cyngor

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Ionawr 2026

Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych chi'n ei aildddefnyddio, rhaid i'ch aildddefnyddio fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Pan fyddwn wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildddefnyddio.

Os oes angen help arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall, os gwelwch yn dda:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- E-bostiwch ni yn post@archwilio.cymru.

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith rydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwilio	4
Ein canfyddiadau	6
Atodiadau	
1 Ynglŷn â'n gwaith	10
2 Strategaeth Ddigidol – Ffurflen Ymateb Sefydliadol	12

Ciplun archwilio

Yr hyn yr edrychwyd arno

- 1 Ym mis Mai 2024, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) yn dilyn archwiliad ar ei strategaeth ddigidol. Gwnaethom dri argymhelliad. Ym mis Mehefin 2024, derbyniodd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yr adroddiad hwn ac ymateb rheoli'r Cyngor i fynd i'r afael â'r argymhellion (gweler Atodiad 2). Edrychodd yr archwiliad hwn ar a yw'r Cyngor yn mynd i'r afael â nhw.
- 2 Fe wnaethom hefyd edrych ar sut mae'r Cyngor yn olrhain ac yn adrodd ar ei gynnydd ar argymhellion archwilio allanol, gan ddefnyddio'r argymhellion strategaeth ddigidol i asesu ei drefniadau.
- 3 Fe wnaethom gynnal yr archwiliad hwn ym mis Tachwedd 2025.

Pam mae hyn yn bwysig

- 4 Mae adroddiadau archwilio allanol yn rhoi barn annibynnol ar drefniadau'r Cyngor. Mae ein hadroddiadau'n cynnwys argymhellion i'r Cyngor pan fyddwn yn nodi bylchau neu wendidau yn ei drefniadau. Gall gweithredu ar yr argymhellion hyn helpu i wella parhaus. Dyna pam mae'n bwysig i'r Cyngor gael trefniadau effeithiol i fonitro a herio cynnydd yn eu herbyn.

Yr hyn rydyn ni wedi'i ddarganfod

- 5 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael ag argymhellion y strategaeth ddigidol. Mae ganddo drefniadau cynhwysfawr sy'n cefnogi goruchwyllo uwch swyddogion ac aelodau o argymhellion archwilio allanol.

Yr hyn rydyn ni'n ei argymell

6 Ni wnaethom unrhyw argymhellion.

Ein canfyddiadau

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael ag argymhellion y strategaeth ddigidol

- 7 Er mwyn alinio ei strategaeth ddigidol â'i adnoddau, yn 2025 trosglwyddodd y Cyngor ei swyddogaethau data, digidol a llywodraethu gwybodaeth i'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS).¹ Nod y newid hwn yw cyfuno adnoddau i gynyddu effeithlonrwydd a gwytnwch. Mae arwyddion cynnar o'r manteision megis mwy o argaeledd adnoddau oherwydd staffio a rennir.
- 8 Mae'r Cyngor yn datblygu Fframwaith Manteision a Gwerthoedd (y fframwaith). Gall hyn helpu'r Cyngor i fesur effaith atebion digidol newydd, megis datrysiad llais-i-destun ar gyfer gwasanaethau Oedolion a Phlant. Trwy ddeall arbedion posibl, gwelliannau perfformiad, ac enillion effeithlonrwydd ar y dechrau, gall y Cyngor farnu gwerth am arian yn well wrth gyflawni ei brosiectau digidol. Ar gyfer 2025-26, mae'r Cyngor yn disgwyl arbed £150,000 o fentrau digidol a gall ddefnyddio'r fframwaith i nodi arbedion yn y dyfodol.
- 9 Mae'r Cyngor yn gwella sut mae'n monitro ei strategaeth ddigidol. Sefydlodd grŵp llywio digidol, data a thechnoleg sy'n defnyddio'r fframwaith i asesu syniadau prosiectau digidol a monitro cynnydd. Mae cynlluniau gwasanaeth blynyddol yn cynnwys mesurau perfformiad strategaeth ddigidol ac mae'r Cyngor yn monitro'r rhain bob chwarter. Gofynnodd y pwyllgor craffu Oedolion a Chymunedau am adroddiad cynnydd ar y strategaeth ddigidol, sy'n dangos ymrwymiad yr aelodau i adolygu a herio cynnydd. Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu i swyddogion ac aelodau fonitro cynnydd prosiectau digidol unigol a chynlluniau cyffredinol y Cyngor ar gyfer digidol.

¹ [Amdanom Ni | Gwasanaeth Adnoddau a Rennir](#)

- 10 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oedd ei strategaeth ddigidol wedi dangos digon o dystiolaeth o'i ymgysylltiad a sut mae hyn wedi siapio'r strategaeth. Mae'r Cyngor wedi dysgu o hyn ac mae wedi ymrwymo i ddangos sut mae ymgysylltu ac ymgynghori yn llywio strategaethau yn y dyfodol.
- 11 Mae'r Cyngor yn casglu adborth ar foddhad cwsmeriaid ac ymdrech cwsmeriaid wrth ddefnyddio dulliau digidol i gysylltu â'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r adborth hwn, yn ogystal â'i fforwm Rebel Torfaen, i ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl i ddatblygu atebion digidol i wella gwasanaethau. Mae enghreifftiau'n cynnwys newid Ap Torfaen yn dilyn adborth cwsmeriaid ac ailgychwyn ei rwydwaith Hyrwyddwyr Digidol mewn ymateb i adborth gan ei fforwm Rebel Torfaen. Ar adeg yr archwiliad hwn, roedd gan y Cyngor tua hanner cant o Hyrwyddwyr Digidol. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor yn gwrandao ar adborth ac yn cefnogi staff i hyrwyddo a llywio defnydd digidol ar draws y sefydliad.
- 12 Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth ymateb i'n hargymhellion strategaeth ddigidol.

Mae gan y Cyngor drefniadau cynhwysfawr sy'n cefnogi goruchwyllo uwch swyddogion ac aelodau o argymhellion archwilio allanol

- 13 Mae uwch swyddogion yn derbyn adroddiadau rheoleiddiwr allanol. Yn y gorffennol, dim ond i'r Cyfarwyddwr a'r Pennaeth Gwasanaeth yr oedd yr adroddiadau hyn yn mynd i'r Cyfarwyddwr a'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Nawr, mae adroddiadau'n mynd i'r tîm Arweinyddiaeth, sy'n cynnwys yr holl Benaethiaid Gwasanaeth. Mae'r newid hwn yn sicrhau bod yr holl uwch swyddogion yn ymwybodol o ganfyddiadau ac argymhellion archwilio ac yn caniatáu iddynt ymateb ar y cyd.

- 14 Mae'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (GAC) yn derbyn yr holl adroddiadau gan reoleiddwyr allanol ynghyd â'r ffurflen ymateb rheoli berthnasol (MRF). Yn dibynnu ar bwnc pob adroddiad, mae'r pwyllgor craffu priodol hefyd yn derbyn yr adroddiad a'r MRF. Mae hyn yn sicrhau bod aelodau'n ymwybodol o ganfyddiadau archwilio allanol a'u bod yn cytuno ar y camau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion cyn i'r rhain gael eu rhoi ar waith.
- 15 Mae aelodau'n monitro cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael ag argymhellion. Pan fydd y GAC yn derbyn adroddiadau gan reoleiddwyr allanol, mae'n penderfynu a ddylid monitro cynnydd ei hun neu basio'r dasg hon i bwyllgor craffu. Mae'r GAC yn derbyn diweddariadau cynnydd bob chwe mis ar gyfer yr argymhellion y mae'n eu tracio. Bob blwyddyn, mae pwyllgorau craffu yn cael diweddariadau ar yr argymhellion maen nhw'n eu monitro ac yna'n adrodd yn ôl i'r GAC. Mae hyn yn rhoi goruchwyliaeth i aelodau a'r cyfle i herio cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael ag argymhellion.
- 16 Mae'r Cyngor yn dysgu o'i ddull ffederal gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (Blaenau Gwent CBC).² Mae'n defnyddio traciwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gofnodi holl adroddiadau ac argymhellion rheoleiddiwr allanol, ynghyd â'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw. O fis Tachwedd 2025, bydd y tîm Gweithredol ar y Cyd yn derbyn traciwr wedi'i ddiweddaru bob chwe mis. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i uwch swyddogion adolygu a herio cynnydd.
- 17 Pan fydd y Cyd-dîm Gweithredol yn derbyn y diweddariadau hyn, bydd yn penderfynu a oes digon o gynnydd wedi'i wneud i gau argymhellion a thynnu allan o fonitro yn y dyfodol. Yna bydd y pwyllgor craffu perthnasol a GAC yn ystyried y penderfyniad fel rhan o'u trefniadau monitro. Dylai hyn wella eglurder a goruchwyliaeth o wneud penderfyniadau.

² Mae cynghorau Bwrdeistref Sirol Torfaen a Blaenau Gwent wedi cytuno i weithio mewn ffederasiwn i gryfhau gallu strategol, gwella gwytnwch, a chyflawni canlyniadau gwell i drigolion a chymunedau, tra'n cynnal sofraniaeth, atebolrwydd democrataidd, ac annibyniaeth statudol pob Cyngor. Ffynhonnell: Trefniadau Ffederasiwn a Chydweithredol rhwng Cynghorau Bwrdeistref Sirol Torfaen a Blaenau Gwent

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Edrychodd yr archwiliad hwn ar a oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad Strategaeth Ddigidol a gyhoeddwyd gennym yn 2024. Fe wnaethom hefyd edrych ar drefniadau'r Cyngor i oruchwyllo ac adrodd ar gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion archwilio allanol. Fe wnaethom ddefnyddio argymhellion y Strategaeth Ddigidol i asesu'r trefniadau.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Atebodd yr archwiliad hwn y cwestiynau canlynol:

- A yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a gynhwysir yn adroddiad y Strategaeth Ddigidol dyddiedig Mai 2024?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i oruchwyllo sut mae'n mynd i'r afael ag argymhellion archwilio allanol?

Meini Prawf

Fe wnaethom asesu a yw:

- mae'r Cyngor wedi alinio ei strategaeth ddigidol â'r adnoddau sydd ar gael;
- y Cyngor wedi gwella sut mae'n monitro ac yn adolygu ei strategaeth ddigidol;
- gwelodd y Cyngor ei ymgysylltiad i gynnwys y rhai sydd â diddordeb yn cyflawni ei ddull o ddigidol;

- aelodau ac uwch swyddogion yn derbyn adroddiadau rheoleiddiwr allanol;
- mae cofnod canolog o argymhellion allanol;
- aelodau ac uwch swyddogion yn derbyn diweddariadau ac yn darparu her;
- aelodau ac uwch swyddogion yn penderfynu pryd mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael ag argymhelliad archwilio allanol.

Dulliau

Fe wnaethom ddarllen dogfennau, gwyllo cyfarfod y Pwyllgor Craffu, a chyfweld â swyddogion ac aelodau.

2 Strategaeth Ddigidol – Ffurflen Ymateb Sefydliadol 2024

Cyf	Argymhelliad	Ymateb sefydliadol Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	Nodi anghenion adnoddau Er mwyn helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol yn cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael, dylai'r Cyngor nodi'r goblygiadau adnoddau tymor byr a hirdymor o'i chyflawni, ynghyd ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd arfaethedig.	Bydd y cyngor yn adolygu galluoedd a gallu digidol cyfredol ac yn datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau. Mae'r cyngor wedi sefydlu Grŵp Llywio Digidol, Data a Thechnoleg a fydd yn cefnogi blaenoriaethu prosiectau yn seiliedig ar yr adnoddau sydd ar gael a dealltwriaeth o'r effaith bosibl. Bydd y cyngor yn adolygu ei Gynllun Cyflenwi Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf i nodi'r effeithiau a ragwelir, gan gynnwys arbedion effeithlonrwydd posibl.	Chwarter 2 2024/25 Parhaus Chwarter 2 2024/25 ar gyfer y cynllun cyfredol ac sy'n parhau ar ôl hynny	Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid, Digidol a TGCh
A2	Trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu Er mwyn sicrhau ei fod yn deall effaith ei strategaeth ddigidol yn well a'i chynnydd wrth ei chyflawni dros y tymor byr, canolig a hir, dylai'r Cyngor	Mae'r cyngor wedi sefydlu Grŵp Llywio Digidol, Data a Thechnoleg i fonitro cynnydd a chefnogi'r cyflawniad. Bydd cyflawniadau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Cwsmeriaid Digidol yn Gyntaf yn cael eu nodi a'u hymgorffori o fewn	Parhaus Parhaus fel rhan o'r broses Cynllunio	Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid, Digidol a TGCh

	gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro ac adolygu cyflawni'r strategaeth.	Cynllunio Gwasanaeth blynyddol a monitro chwarterol.	Gwasanaeth blynyddol a monitro chwarterol	
A3	Cryfhau cyfleoedd ymgysylltu Er mwyn helpu i sicrhau bod ei adnoddau yn cael eu targedu'n effeithiol, dylai'r Cyngor gryfhau ymgysylltiad ag amrywiaeth lawn y rhai sydd â diddordeb mewn cyflawni ei ymagwedd strategol at ddigidol.	Bydd y cyngor yn parhau i gasglu adborth cwsmeriaid fel Boddhad ac Ymdrech Cwsmeriaid ac yn defnyddio'r mewnwelediad hwn i lywio gwelliannau fel rhan o'r broses gynllunio gwasanaeth flynyddol. Mae'r cyngor yn rhan o weithgor arolwg trigolion cenedlaethol CLILC/DATA Cymru a bydd yn cynnal arolwg preswylwyr blynyddol. Bydd y cyngor yn darparu adroddiad blynyddol i'r cyngor ar safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth.	Parhaus fel rhan o'r broses Cynllunio Gwasanaeth blynyddol a monitro chwarterol C3. 2024/25 Ch4 2024/25	Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid, Digidol a TGCh Pennaeth Cyfathrebu, Ymgysylltu ac Argyfyngau Sifil Pennaeth Cyfathrebu, Ymgysylltu ac Argyfyngau Sifil

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y defnydd o adnoddau gan y sefydliadau hyn ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'r rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls
in Welsh and English.

